**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

11 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n berthnasol o dan y prif Reoliadau i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth o’r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae Memorandwm Esboniadol i’r prif Reoliadau yn darparu rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r prif Reoliadau er mwyn:

- cau pob atyniad awyr agored gan gynnwys ffeiriau ac eithrio digwyddiadau a sedd cerbyd fel sinemâu o sedd cerbyd; a
- cau parciau trampolîn a pharciau sglefrio

O ystyried y dirywiad yn sefyllfa iechyd y cyhoedd a chytundeb y DU gyfan i lacio'r cyfyngiadau am gyfnod byr dros y Nadolig, y cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yw y dylid cymryd camau brys yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig er mwyn osgoi galw anghynaladwy ar y GIG ddiwedd mis

Rhagfyr a mis Ionawr. Mae penderfyniad ar wahân wedi'i wneud i symud pob ysgol uwchradd i ddysgu ar-lein un wythnos cyn diwedd y tymor.

Er mwyn helpu ymhellach i atal cymysgu mewn mannau cyhoeddus, bydd y Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob atyniad awyr agored a ffeiriau fod ar gau o ddydd Llun 14 Rhagfyr.

Daw'r gwelliannau hyn i rym ddechrau dydd Llun, 14 Rhagfyr 2020.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu a oedd angen y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn, a phennu manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, rwyf i, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a busnesau ac undebau llafur yng Nghymru ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn fy natganiad i'r Aelodau ar 11 Rhagfyr, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi diweddariad i Gynllun Rheoli Coronafeirws yr wythnos ganlynol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.